Wise Wales
Easter 2018 Newsletter
Cylchlythyr Pasg 2018
Wise Cymru

Welcome back! Wise Wales hope you had a brilliant time off over the Easter holidays and are ready to get stuck into a new term. We've been working on a number of projects and events since the last newsletter, so thought it was about time for an update!

Croeso 'nôl! Mae Wise Cymru'n gobeithio eich bod chi wedi cael amser gwych i ffwrdd dros wyliau'r Pasg, a'ch bod yn barod ar gyfer dechrau tymor newydd. Rydyn ni wedi bod yn gweithio ar nifer o brosiectau a digwyddiadau ers y cylchlythyr diwethaf, felly roeddem yn meddwl ei bod hi'n bryd eich darparu â'r newyddion diweddaraf!

Cynhadledd Cynrychiolwyr Cwrs

Ym mis Chwefror, cynhaliodd Wise ein Cynhadledd Flynyddol ar gyfer Cynrychiolwyr Cwrs yn Aberystwyth. Roedd yn ddigwyddiad poblogaidd iawn, gyda chynrychiolwyr o Aberystwyth, Bangor, Abertawe a PCyDDS yn bresennol.

Ymddangosodd panel trafod ar yr agenda am y tro cyntaf, oedd yn ychwanegiad diddorol ac ysgogol i ddigwyddiadau'r dydd. Diolch yn arbennig i CCAUC, Undeb Myfyrwyr Aberystwyth, ac UCM Cymru am gymryd rhan.

Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn, ac rydym wedi rhoi ystyriaeth i lawer o syniadau er mwyn gwella'r digwyddiad ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Rhwydwaith Ymarferwyr Llais y Dysgwr

Cyfarfu RhYLlD yn ystod cynhadledd flynyddol UCM Cymru ym mis Mawrth, ac roedd yn gyfle gwych i gwrdd â'r holl wynebau newydd sy'n ymwneud â'r rhwydwaith. Trafodwyd llawer o heriau a 'phynciau llosg', a chyflwynodd Wise ein saith adnodd fel rhan o brosiect Canllawiau

Course Representative Conference

Back in February, Wise hosted our annual Course Rep Conference in Aberystwyth. It was a sell-out event, with delegates from Aberystwyth, Bangor, Swansea and UWTSD attending.

A discussion panel featured on the agenda for the first time, and it proved to be an interesting and thought-provoking addition to the day's events. Special thanks to HEFCW, Aberystwyth Students' Union, and NUS Wales for taking part.

Feedback was very positive, and we've taken on lots of ideas to improve for next year's event.

Learner Voice Practitioner Network

The LVPN met during NUS Wales' annual conference in March, and it was a great opportunity to meet all the new faces involved with the network. Lots of challenges and 'hot topics' were discussed, and Wise presented our seven resources as part of the Pathways to Partnership project (see below). Thank you to everyone who attended, and we hope you enjoyed it as much as we did!

Partneriaeth (gweler isod). Diolch i bawb a fynychodd y digwyddiad, a gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r profiad gymaint ag y gwnaethon ni!

Canllawiau Partneriaeth mewn AB

Cwblhawyd gwaith Wise Cymru ar brosiect Canllawiau Partneriaeth ar gyfer Addysg Bellach gyda lansio saith o adnoddau newydd ar gyfer staff mewn sefydliadau. Daw'r pynciau (gweler isod) o wybodaeth a gasglwyd yn ystod cyfweliadau ag Ymarferwyr Llais y Dysgwr ledled y wlad, â'r nod o roi cymorth i arferion partneriaeth cyfredol a helpu i ddechrau rhai newydd:

1. Hyfforddiant cynrychiolwyr cwrs a swydd-ddisgrifiadau
2. Datblygu strategaeth gyfathrebu a brandio
3. Gweithredu strategaeth ymgysylltu
4. Mesur effaith cynrychiolwyr cwrs
5. Monitro amrywioldeb cynrychiolwyr
6. Gwobrau dysgu dan arweiniad myfyrwyr
7. Myfyrwyr ar baneli penodi staff

Mae'r saith adnodd yma ynghlwm ac mae croeso i chi eu defnyddio a'u trosglwyddo i unrhyw gydweithwyr perthnasol. Byddant hefyd yn ffurfio rhan o'r agenda ar gyfer ein Cynhadledd Partneriaeth sydd i'w chynnal yn fuan (mwy o wybodaeth am hynny isod).

Os oes gennych chi unrhyw adborth neu gwestiynau ynglŷn â hyn, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Diweddaru ein rhestr ohebu

Rydych chi'n derbyn y diweddariadau hyn gan Wise Cymru oherwydd bod eich enw a'ch cyfeiriad e-bost yn ein cofnodion fel cyswllt allwedol o fewn eich sefydliad.

Er mwyn cydymffurfio â GDPR, rydym wrthi'n diweddaru ein rhestr ohebu ac mae angen i chi roi gwybod i ni eich bod yn dal i fod yn fodlon derbyn ein cylchlythyrau. Gallwch wneud hyn drwy anfon e-bost at charlotte.west@nus-wales.org.uk

Fel arall, os nad ydych am dderbyn rhagor o gylchlythyrau oddi wrthym, anfonwch e-bost at charlotte.west@nus-wales.org.uk yn gofyn am gael eich tynnu oddi ar ein rhestr ohebu.

Updating our mailing list

You are receiving these updates from Wise Wales because your name and email address are on our records as a key contact from your organisation.

To comply with GDPR, we are updating our mailing list and need you to let us know that you're still happy to receive our newsletters by emailing charlotte.west@nus-wales.org.uk

Alternatively, if you do not want to receive any more newsletters from us, please email charlotte.west@nus-wales.org.uk requesting to be removed from our mailing list.

FE Pathways to Partnership

Wise Wales' work on the Pathways to Partnership project for Further Education was completed with the launch of seven new resources for institutional staff. The topics (see below) were drawn from information collected during interviews with Learner Voice Practitioners across the country, with the aim to support current partnership practices and help start new ones:

1. Course representative training and job descriptions
2. Developing a communication and branding strategy
3. Implementing an engagement strategy
4. Measuring the impact of representatives
5. Monitoring the diversity of representatives
6. Student-Led Teaching Awards
7. Students on staff appointment panels

These seven resources are attached and are free for you to use and pass on to any relevant colleagues. They will also form part of the agenda for our upcoming Partnership Conference (more information on that below).

If you have any feedback or questions regarding the resources, do not hesitate to get in touch.

@Wise_Cymru

@Wise_Wales

Partnership Conference

Wise are excited to announce that registration for the annual Partnership Conference will open on the 25th April! The event will feature a range of workshops and opportunities for sector staff to get together and discuss partnership practices within their institutions, with the hope of sharing good ideas for future improvement. The event is open to both HE and FE staff, officers and any interested students who might benefit from being part of the conversation. We will be in contact with more details regarding the conference once registration opens.

Annual Quality Report Guidance

As part of HEFCW's Quality Assessment Framework for Wales, Wise Wales are relaunching our Annual Quality Report Guidance, originally published in 2015.

It aims to help institutions compile an evidence-based report representing the views of students, initiating dialogue between students' unions and universities. By doing so, both parties can work together in partnership to develop solutions which enhance the university experience for all invested, and disseminate the good practice already taking place within the institution, and across the nation.

If you want to check it out, the AQR guidance is attached.

Thank you all for reading, and we hope you have a great term!

Cynhadledd Partneriaeth

Mae Wise yn falch o gyhoeddi y bydd cofrestru ar gyfer y Gynhadledd Partneriaeth flynyddol yn agor ar 25ain Ebrill! Bydd y digwyddiad yn cynnwys amryw o weithdai a chyfleoedd i staff y sector ddod at ei gilydd a thrafod arferion partneriaeth o fewn eu sefydliadau, gyda'r gobaith o rannu syniadau da ar gyfer gwelliant yn y dyfodol. Mae'r digwyddiad yn agored i staff, swyddogion ac unrhyw fyfyrwyr, AU neu AB, a allai elwa o fod yn rhan o'r sgwrs. Byddwn mewn cysylltiad gyda mwy o fanylion ynglŷn â'r gynhadledd unwaith y bydd cofrestru'n agor.

Canllawiau ar gyfer llunio Adroddiadau Ansawdd Blynyddol

Fel rhan o Fframwaith Asesu Ansawdd CCAUC, mae Wise Cymru yn ail-lansio ein Canllawiau ar gyfer llunio Adroddiad Ansawdd Blynyddol, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2015.

Y nod yw helpu sefydliadau i lunio adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynrychioli barn myfyrwyr, gan ddechrau deialog rhwng undebau myfyrwyr a phrifysgolion. Drwy wneud hynny, gall y naill garfan a'r llall weithio mewn partneriaeth i ddatblygu datrysiadau sy'n gwella'r profiad o fod yn y brifysgol i bawb. Mae hefyd yn fodd o ledaenu'r arfer da sydd eisoes yn bodoli o fewn y sefydliad, ac ar draws y wlad.

Os ydych chi am fwrw golwg dros hwn, mae'r canllawiau ar gyfer yr AAB ynghlwm.

Diolch i chi i gyd am ddarllen hwn, a gobeithio y cewch chi dymor gwych!

Wise Cymru | Wise Wales